OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 450 (Cy.48)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Diwygio) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*24 Chwefror 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*26 Chwefror 2010*
Yn dod i rym - -	*19 Mawrth 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 4, 5 a 40(1) o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990(**1**).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Diwygio) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 19 Mawrth 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf Sylweddau Peryglus" yw Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990; ac

ystyr "y Rheoliadau Sylweddau Peryglus" yw Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1992(**2**).

Diwygio Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1992

3.—(1) Diwygir y Rheoliadau Sylweddau Peryglus fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)(dehongli) yn y diffiniad o "the Directive", ar ôl "substances" mewnosoder "(as amended by Directive 2003/105/EC of the European Parliament and of the Council(**3**))".

(3) Yn rheoliad 4(6)(esemptiadau) yn lle "6, 14, 35 and 39" rhodder "10, 18, 39 and 43."

(**1**) 1990 p.10; cafodd adran 4 ei diwygio gan O.S. 1999/981; mae yna ddiwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mae'r pwerau hyn bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Fe'u trosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p.32).

(**2**) O.S. 1992/656; gwnaed diwygiadau perthnasol gan baragraff 233 o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25), adran 76(7) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 (p.27), O.S. 1994/2567, O.S. 1996/252, O.S. 1999/981 ac O.S. 2005/1082.

(**3**) O.J. L345, 31.12.2003, t. 97.

(4) Yn lle Atodlen 1 (sylweddau peryglus a maintioli sydd dan reolaeth) rhodder yr Atodlen 1 a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Darpariaeth drosiannol: cydsyniadau presennol

4.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i sylwedd, i beth a gymysgir neu i beth a baratoir o fewn ystyr rheoliad 3 o'r Rheoliadau Sylweddau Peryglus, ac a ddisgrifir mewn cydsyniad sylweddau peryglus a roddwyd (neu y bernir iddo gael ei roi) cyn bod y Rheoliadau hyn wedi dod i rym—

(a) os bydd disgrifiad y sylwedd hwnnw, y peth a gymysgir neu'r peth a baratoir yng ngholofn 1 o Ran A neu Ran B o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Sylweddau Peryglus fel y mae cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym yn cael ei ddiwygio o ganlyniad i ddyfodiad y Rheoliadau hyn i rym; a

(b) os yw'r cydsyniad sylweddau peryglus yn bodoli mewn perthynas â'r sylwedd hwnnw, y peth a gymysgir neu'r peth a baratoir sydd dan sylw yn union cyn dyfodiad y Rheoliadau hyn i rym.

(2) Mewn perthynas â sylwedd, peth a gymysgir neu beth a baratoir y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo, caniateir anwybyddu'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn wrth ddehongli'r cydsyniad sylweddau peryglus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r sylwedd hwnnw, y peth a gymysgir neu'r peth a baratoir neu'r maintioli ohono sydd dan reolaeth.

(3) Mae paragraff (2) yn peidio â bod yn gymwys os yw'r cydsyniad sylweddau peryglus mewn perthynas â'r sylwedd hwnnw, y peth a gymysgir neu'r peth a baratoir neu'r maintioli ohono sydd dan reolaeth yn cael ei addasu gan yr awdurdod sylweddau peryglus ar 19 Mawrth 2010 neu wedi hynny.

Esemptiadau Trosiannol

5.—(1) Ni chyflawnir tramgwydd o dan adran 23 o'r Ddeddf Sylweddau Peryglus cyn 19 Awst 2010 ac ni chaniateir dyroddi hysbysiad tramgwydd sylweddau peryglus cyn y dyddiad hwnnw mewn perthynas â sylwedd peryglus sydd ar unrhyw dir, neu uwch ei ben neu oddi tano,—

(a) os oedd y sylwedd yn bresennol ar unrhyw dir, neu uwch ei ben neu oddi tano ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o 12 mis yn gorffen ar 19 Mawrth 2010 ac nad oedd yn sylwedd neu'n faintioli o sylwedd yr oedd yn ofynnol cael cydsyniad sylweddau peryglus ar ei gyfer cyn y dyddiad hwnnw; a

(b) os nad yw'r sylwedd yn bresennol yn ystod y cyfnod sy'n cychwyn ar 19 Mawrth 2010 ac sy'n gorffen ar 18 Awst 2010 mewn maintioli sy'n fwy yn gyfunol na'r maintioli sefydledig.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr "y maintioli sefydledig", mewn perthynas ag unrhyw dir, yw uchafswm y maintioli oedd yn bresennol ar y tir, neu uwch ei ben neu oddi tano ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n gorffen ar 19 Mawrth 2010.

Jane Davidson
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd,
Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion
Cymru.

24 Chwefror 2010

YR ATODLEN Rheoliad 3

"SCHEDULE 1 Regulation 3

HAZARDOUS SUBSTANCES AND CONTROLLED QUANTITIES

PART A

NAMED SUBSTANCES

Column 1 Hazardous substances	*Column 2* Controlled quantity (Q) in tonnes	*Column 3* Quantity for purposes of note 4 to the notes to Parts A and B (Q*)
1. Ammonium nitrate to which Note 1 of the notes to this Part applies	5000.00	
2. Ammonium nitrate to which Note 2 of the notes to this Part applies	1000.00	1250.00
3. Ammonium nitrate to which Note 3 of the notes to this Part applies	350.00	
4. Ammonium nitrate to which Note 4 of the notes to this Part applies	10.00	
5. Potassium nitrate to which Note 5 of the notes to this Part applies	5000.00	
6. Potassium nitrate to which Note 6 of the notes to this Part applies	1250.00	
7. Arsenic pentoxide, arsenic (V) acid and/or salts	1.00	
8. Arsenic trioxide, arsenious (III) acid and/or salts	0.10	
9. Bromine	20.00	
10.Chlorine	10.00	
11. Nickel compounds in inhalable powder form (nickel monoxide, nickel dioxide, nickel sulphide, trinickel disulphide, dinickel trioxide)	1.00	
12. Ethyleneimine	10.00	
13. Fluorine	10.00	

Column 1 Hazardous substances	*Column 2* Controlled quantity (Q) in tonnes	*Column 3* Quantity for purposes of note 4 to the notes to Parts A and B (Q*)
14. Formaldehyde (concentration greater than or equal to 90%)	5.00	
15. Hydrogen	2.00	5.00
16. Hydrogen chloride (liquefied gas)	25.00	
17. Lead alkyls	5.00	
18. Liquefied petroleum gas, including commercial propane and commercial butane, and any mixture thereof, when held at a pressure greater than 1.4 bar absolute.	25.00	50.00
19. Liquefied extremely flammable gases excluding pressurised LPG (entry no.18)	50.00	
20. Natural gas	15.00	50.00
21. Acetylene	5.00	
22. Ethylene oxide	5.00	
23. Propylene oxide	5.00	
24. Methanol	500.00	
25. 4, 4-Methylenebis (2-Chloraniline) and/or salts, in powder form	0.01	
26. Methylisocyanate	0.15	
27. Oxygen	200.00	
28. Toluene diisocyanate	10.00	
29. Carbonyl dichloride (phosgene)	0.30	
30. Arsenic trihydride (arsine)	0.20	
31. Phosphorus trihydride (phosphine)	0.20	
32. Sulphur dichloride	1.00	
33. Sulphur trioxide (including sulphur trioxide dissolved in sulphuric acid to form Oleum)	15.00	

Column 1 Hazardous substances	*Column 2* Controlled quantity (Q) in tonnes	*Column 3* Quantity for purposes of note 4 to the notes to Parts A and B (Q*)
34. Polychlorodibenzofurans and polychlorodibenzodioxins (including TCDD), calculated in TCDD equivalent (to which Note 7 of the notes to this Part applies)	0.001	
35. The following CARCINOGENS at concentrations above 5% by weight: 4-Aminobiphenyl and/or its salts, Benzotrichloride, Benzidine and/or salts, Bis (chloromethyl) ether, Chloromethyl methyl ether, 1,2-Dibromoethane, Diethyl sulphate, Dimethyl sulphate, Dimethylcarbamoyl chloride, 1,2-Dibromo-3-chloropropane, 1,2-Dimethylhydrazine, Dimethylnitrosamine, Hexamethylphosphoric triamide, Hydrazine, 2-Naphthylamine and/or salts, 4-Nitrodiphenyl and 1,3 Propanesultone	0.5	
36. Petroleum products (a) gasolines and naphthas, (b) kerosenes (including jet fuels), (c) gas oils (including diesel fuels, home heating oils and gas oil blending streams)	2500.00	
37. Acrylonitrile	20.00	50.00
38. Carbon disulphide	20.00	50.00
39. Hydrogen selenide	1.00	50.00
40. Nickel tetracarbonyl	1.00	5.00
41. Oxygen difluoride	1.00	5.00
42. Pentaborane	1.00	5.00
43. Selenium hexafluoride	1.00	50.00